



Swydd Ddisgrifiad

Teitl y swydd :	Swyddog Rhyngwladol	Lleoliad :	Unrhyw un o brif swyddfeydd yr Urdd
Adran :	Canolog	Cyflog :	Gweithredol 4: £29,409 - £31,430 y flwyddyn
Oriau gwaith :	Llawr amser (35 awr yr wythnos)	Cytundeb :	Parhaol
Yn adrodd i :	Pennaeth Materion Rhyngwladol	Rheolaeth llinell :	Dim

Prif bwrpas y swydd:

Dyma swydd i unigolyn trefnus, effeithlon a brwdfrydig i weithio ar brosiectau rhyngwladol yr Urdd.

Gweledigaeth Adran Rhyngwladol yr Urdd yw sicrhau fod ieuenctid Cymru yn cael profiadau unigryw rhyngwladol gan rannu ein diwylliant, y Gymraeg a'n gweledigaeth fel mudiad i rymuso pobl ifanc i fod yn falch o'u hiaith a'u treftadaeth ac yn agored i'r byd gan ddatblygu sgiliau dinasyddiaeth fyd-eang.

Yn y blynyddoedd diwethaf mae'r Urdd wedi datblygu strategaeth ryngwladol lwyddiannus sy'n cynnig profiadau amhrisiadwy i aelodau, gwirfoddolwyr, prentisiaid a staff ifanc yr Urdd i deithio yn enw'r Mudiad er mwyn rhannu ein hiaith a'n diwylliant a dysgu o ddiwylliannau eraill. Derbynnir grantiau ac arian allanol i redeg rhaglen lwyddiannus o deithiau drwy gydol y flwyddyn.

O dan arweiniad y Pennaeth Materion Rhyngwladol bydd y swyddog yn gyfrifol am reoli'r prosiectau rhyngwladol i sicrhau teithiau llwyddiannus a buddiol i'r holl randdeiliaid. Bydd hwn yn cynnwys teithiau tramor, y Neges Heddwch ac Ewyllys Da a gwaith rhyngwladol yng Nghymru.

Prif ddyletswyddau a chyfrifoldebau:

1. Trefnu ac amserlennu holl deithiau rhyngwladol yr Urdd yn dilyn cyfarwyddyd y Pennaeth Materion Rhyngwladol.
2. Rheoli prosiect Neges Heddwch yr Urdd sy'n cynnwys cydlynu gyda chyfranogwyr, ymarferwyr, cwmnïau allanol a staff i greu ymgyrch bwerus flynyddol gyda thargedau pendant mewn lle.
3. Rheoli ymweliadau sy'n dod i Gymru fel rhan o gynlluniau rhyngwladol yr Urdd. Bydd hyn yn waith trefnu a chydlynu holl gynnwys y cyrsiau. Bydd hefyd angen arwain ar y cydweithio gydag aelodau eraill o'r adran o ran gofynion hyrwyddo i ddenu cyfranogwyr i'r prosiectau.



4. Rheoli ein perthynas gyda phartneriaid a bod yn brif gyswllt wrth drefnu a rheoli ymweliadau gyda aelodau yr Urdd.
5. Rheoli cyllidebau ein teithiau rhyngwladol a chydweithio gyda'r Pennaeth ar gyllideb glir ynghyd â rheolwyr adrannol ar gyllidebau teithiau sy'n cael eu hariannu gan arianwyr allanol.
6. Bod yn gyfrifol am iechyd a diogelwch holl deithiau Rhyngwladol yr Urdd. Mae hyn yn cynnwys cwblhau asesiadau risg, diogelwch plant a phobl ifanc gan sicrhau fod pawb yn ymwybodol ac yn deall eu cyfrifoldebau.
7. Datblygu cynllun hyrwyddo addas ar y cyd gyda'r Pennaeth Materion Rhyngwladol a'r Adran Cyfathrebu ar gyfer pob taith a phrosiect rhyngwladol.
8. Arwain ar y sianeli cymdeithasol rhyngwladol gan gynnwys creu cynllun clir ar gyfer pob taith.

Manyleb y person a'r meini prawf: Cymwysterau, sgiliau a phrofiad

Nodiadau i ymgeiswyr:

- I ymgeisio, mae'n rhaid llenwi'r ffurflen gais yn llawn, gan roi enghreifftiau i gefnogi eich atebion. Mae'n rhaid i chi ddangos eich bod yn cwrdd â'r holl feini prawf hanfodol i gael eich cynnwys ar y rhestr fer.

Hanfodol:

1. Sgiliau trefnu a gweinyddol ardderchog.
2. Profiad o feddu rôl blaengar mewn prosiectau penodol.
3. Profiad o weithio o fewn cyllidebau penodol.
4. Profiad o gydbwyso sawl prosiect ar y cyd gan ddangos y gallu i flaenoriaethu.
5. Hyblygrwydd i allu ymateb i newidiadau munud olaf mewn gofynion ee yn unol â gofynion penodol arianwyr.
6. Sgiliau cadarn i gyfathrebu yn glir a chywir yn y Gymraeg a'r Saesneg yn ysgrifenedig ac ar lafar.
7. Dealltwriaeth a phrofiad o weithio mewn partneriaeth gyda sawl partner.
8. Profiad o ysgrifennu adroddiadau.

Dymunol:

1. Profiad o reoli a threfnu prosiectau.
2. Profiad o drefnu teithiau rhyngwladol mewn cyd-destun gwaith.
3. Dealltwriaeth o waith Rhyngwladol yr Urdd, strategaeth rhyngwladol Llywodraeth Cymru a phartneriaid yng Nghymru sy'n gweithio'n rhyngwladol.
4. Cymhwyster iechyd a diogelwch neu brofiad yn y maes.



Newidiadau i'r Swydd Ddisgrifiad: Gall y disgrifiad swydd hwn newid neu gael ei ddiwygio ar unrhyw amser ar ôl ymgynghori â deiliad y swydd.

Hyblygrwydd: Tynnir eich sylw at y ffaith fod dyletswyddau a chyfrifoldebau penodol mewn rhai achosion yn anodd eu dadansoddi yn fanwl a gallent newid o dro i dro heb newid cymeriad cyffredinol y dyletswyddau na lefel y cyfrifoldeb.

Yn ychwanegol, mae'n ofynnol i bob aelod o'r staff dderbyn elfennau o hyblygrwydd yn eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau, a phan fo angen, cyfnewid er mwyn cyfarfod anghenion a gofynion y gwasanaeth sy'n newid yn barhaus. Bydd angen o'r fath yn galluogi i arbenigedd penodol y deilydd dyfu a datblygu er lles y cyflogwr a'r gweithiwr.

Adolygiad: Cyhoeddwyd y disgrifiad swydd yma ym mis Medi 2026 ac fe'i hadolygir yn gyson fel rhan o ddatblygiad yr unigolyn, ynghyd ag adolygiad perfformiad.

Gofynion: Bydd angen i'r ymgeisydd llwyddiannus feddu ar drwydded yrru llawn ac yswiriant priodol sydd â sicrwydd ar gyfer defnydd busnes.

Bydd gofyn i'r ymgeisydd llwyddiannus berchnogi'r holl rinweddau o [Egwyddorion Gweithio i'r Urdd](#) trwy gydol eu cyflogaeth.

Gwiriadau Perthnasol: Bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd llwyddiannus gael ei wirio gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG).